

Cynnwys

Rhaglen	2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf	7
5a - Cofnodion Is-Bwyllgor 9-7-14	9
5b - Cofnodion Is-Bwyllgor 14-7-14	12
5c - Cofnodion Is-Bwyllgor 16-7-14	14
6 - Adroddiad Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig 2014-15 – Adran Gwarchod y Cyhoedd	19
Atodiad 1	20
7 - Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Trwyddedu Canolog a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol	26



Gwasanaeth Democraidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
CENTRAL LICENSING COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

10:00yb DYDD LLUN, 15 MEDI 2014
10:00am MONDAY, 15 SEPTEMBER 2014

Lleoliad / Location

SIAMBR HYWEL DDA
SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES
CAERNARFON

Pwynt Cyswllt / Contact Point

LOWRI HAF EVANS
(01286) 679878

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 8.9.14

PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

CENTRAL LICENSING COMMITTEE

Aelodaeth/Membership (15)

Plaid Cymru (7)

Y Cynghorwyr/Councillors

Eddie Dogan Huw Edwards

Annwen Hughes Chris Hughes

W. Tudor Owen Ann Williams

sedd wag / vacant seat

Annibynnol/Independent (4)

Y Cynghorwyr/Councillors

Eryl Jones-Williams Christopher O'Neal

Angela Russell Elfed Williams

Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

Llywarch Bowen Jones Dilwyn Lloyd

Peter Read

Aelod Unigol / Individual Member (1)

Lousie Hughes

Aelod Ex-officio/Ex-officio Member

Is-gadeirydd y Cyngor/Vice-chairman of the Council

RHAGLEN

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2014 fel rhai cywir.

(copi yma – papur **gwyn**)

5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

(a) 09.7.2014

(b) 14.7.2014

(c) 16.7.2014

(copi yma – papur **glas**)

6. ADRODDIAD FFIOEDD A THALIADAU ARFAETHEDIG 2014/15 – ADRAN GWARCHOD Y CYHOEDD

Cyflwyno adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio

(copi yma – papur **melyn**)

7. CADEIRYDDIAETH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG A'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr

(copi yma – papur gwyrdd)

AGENDA

1. WELCOME AND APOLOGIES

To receive any apologies for absence.

2. DECLARATION OF PERSONAL CONNECTION

To receive any declaration of personal interest.

3. URGENT ITEMS

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

4. MINUTES

The Chairman shall propose that the minutes of the meeting of this Committee, held on 23rd of June 2014, be signed as a true record.

(copy herewith – **white** enclosure)

5. LICENSING SUB-COMMITTEE MINUTES

To submit, for information, minutes of the Licensing Sub-committee meetings held on the following dates:-

- (a) 09.07.2014
- (b) 14.07.2014
- (c) 16.07.2014

(copy herewith – **blue** enclosures)

6. REPORT ON THE PROPOSED FFES AND CHARGES 2014/15 – PUBLIC PROTECTION DEPARTMENT

To submit the report of the Head of Regulatory Department

(copy herewith – **yellow** enclosures)

7. CHAIRING THE CENTRAL LICENSING COMMITTEE AND THE GENERAL LICENSING COMMITTEE

To submit the Senior Solicitors report

(copy herewith **green** paper)

PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 23.06.14

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Eddie Dogan, Huw Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, W.Tudor Owen, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams, Eryl Jones-Williams

Hefyd yn Bresennol: Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

Cymerodd y Cynghorydd Tudor Owen y cyfle i ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Eryl Jones - Williams yn Gadeirydd am y cyfnod 2014-2015

2. ETHOL IS GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Huw Edwards yn Gadeirydd am y cyfnod 2014-2015

3. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Lloyd Williams, Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dilwyn Lloyd, Llywarch Bowen Jones, Chris O'Neal a Peter Read.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 9fed o Ragfyr 2013, yn ddarostyngedig ar gywirdeb i Rhan 2: Eitem 1 (iii) Gosod terfyn amser i sylwadau.

Cywirdeb: *'Gwnaed cais i osod terfyn amser ar y sylwadau sydd yn cael eu cyflwyno gan **bawb**. Hyn yn creu tegwch i bawb.*

*Cynigiwyd terfyn amser o ddim mwy na deg munud
Cytunwyd'*

7. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 21.1.2014 a 20.2. 2014.

8. CEISIADAU TRWYDDED EIDDO ANNILYS

Derbyniwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn argymhell i'r Pwyllgor gefnogi swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu i weithredu gyda'r nôd o sicrhau nad yw ceisiadau annilys yn cael eu cyflwyno.

Amlygwyd bod yr Adain Drwyddedu wedi gorfod gwrthod sawl cais am drwydded eiddo, neu geisiadau am amrywiad o drwydded eiddo yn ddiweddar, oherwydd nad oeddynt wedi eu cyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu a'r rheoliadau perthnasol.

Manylwyd ar ofynion y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol a'r goblygiadau o gyflwyno ceisiadau annilys. O safbwynt y sefyllfa gyfreithiol eglurwyd bod mesurau wedi eu rhoi mewn lle i dynhau'r broses o graffu pob cais a dderbynnir gan yr Uned Drwyddedu. Gall hyn geisio sicrhau na fydd ceisiadau annilys yn cael eu cyfeirio at yr Is bwyllgorau am benderfyniad. O ganlyniad, gellid osgoi sefyllfa lle bydd rhaid gohirio gwrandawriad ar y diwrnod os daw tystiolaeth i law nad yw ceisiadau wedi eu cyflwyno yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth. Amlinellwyd nad oedd hawl gan swyddogion nac Is Bwyllgor yr awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar geisiadau annilys.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, nododd y Swyddog Trwyddedu bod yr Adran Trwyddedu

- wedi addasu eu trefniadau i dynhau'r broses
- yn sicrhau bod tystiolaeth cyson yn cael ei gasglu pan fydd cais o fewn cyfnod ymgynghorol.
- Yn gweithredu mewn ymateb i ofynion statudol y ddeddf
- Nodwyd bod hi'n anodd rhagweld tystiolaeth sydd yn cael ei gyflwyno yn hwyr yn y dydd

Croesawyd yr argymhelliad gan fod rhai Aelodau o'r farn bod ceisiadau annilys sydd wedi bod gerbron yr is-bwyllgorau yn gamddefnydd o adnoddau prin Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor.

PENDERFYNWYD derbyn argymhelliad y Pennaeth Rheoleiddio

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m a daeth i ben am 10:45am

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 09.07.14

Yn bresennol: Cyng. Peter Read, Cyng Ann Williams, Cyng. Llywarch Bowen Jones

Hefyd yn bresennol: Mr Ian Williams (Cydllynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru), Mr Jeff Hall (Gwasaneth Tan ac Achub Gogledd Cymru), Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu), Euron Thomas (Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

1. CROESO

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cyngorydd Peter Read. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – GWYL GLASS BUTTER BEACH, CARREG Y DEFAID, LLANBEDROG

Ar ran yr eiddo: Mr Mark Duckworth a Mr Mark Durston (Sensation Group)

Ymddiheuriadau: PC Andy Vowel, Mr Stuart Wyn Jones

Atgoffwyd pawb o'r drefn gwrandawriad ac o bedwar egwyddor y Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen eu hystyried wrth wneud penderfyniad.

Gofynnodd y Swyddog Tân am ganitâd i gyflwyno sylwadau gerbron yr Is-bwyllgor.

Cyfeiriwyd yr Is-bwyllgor gan Gyfreithiwr y Cyngor i Reoliadau 17 ac 18 o'r Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005.

Nododd pawb o'r partion yn bresennol eu bod yn cydsynio i'r cais ac felly rhoddwyd caniatâd i'r Swyddog Tân gyflwyno sylwadau yn ystod y gwrandawriad.

Cyfeiriwyd yr Is-bwyllgor gan Gyfreithiwr y Cyngor i Reoliad 24 o'r Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005. Penderfynodd yr Is-bwyllgor osod uchafswm o 20 munud fesul parti ar gyfer cyflwyno sylwadau.

Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais Gŵyl Glass Butter Beach am drwydded o'r newydd. Nodwyd bod trwydded wedi bod mewn bodolaeth ar gyfer yr ŵyl mewn lleoliad arall.

Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig.

Rhestrwyd hefyd y mesurau a argymhellwyd gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau ar y cais gan Gyngor Cymuned Llanbedrog yn nodi yn bennaf nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth am y cais ond, wedi bod yn

gefnogol i'r wyl yn y gorffennol. Gwnaed sylw nad oedd y Cyngor Cymuned yn gefnogol i werthiant alcohol tu allan i'r prif safle ar y traeth.

Derbyniwyd hefyd wrthwynebiad gan breswlydd cyfagos yn mynegi ei bryderon bod caniatáu y cais yn tansilio'r pedwar amcan trwyddedu, Rhwystro Trosedd ac Anhrefn, Diogelwch y Cyhoedd, Rhwystro Niwsans Cyhoeddus ac Amddiffyn Plant rhag Niwed

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais. Nododd bod trwydded gyffelyb ganddo eisoes ar gyfer yr Wyl, ond bod angen trwydded o'r newydd gan fod safle newydd i'r Wyl. Amlygodd nad oedd wedi gwneud cais am weithgareddau trwyddedig ar gyfer dydd Sul. Ei brif nod oedd creu awyrgylch hwyliog a chyfeillgar yn canolbwyntio ar ddefnydd o'r traeth.

Derbyniodd bod y lefel sŵn yn uwch na'r lefel dderbyniol yn 2011 a bod rhegi uchel dros yr uwch seinydd. Sicrhodd bod camau wedi eu gweithredu i ymateb i hyn. Ni dderbyniwyd cwynion am lefelau sŵn na rhegi yn 2013. Nodwyd bod polisi ymddygiad da wedi ei fabwysiadu a bod cwmni allanol wedi eu penodi i sicrhau bod y polisi yn cael ei gyfarch.

Yr ymgeisydd yn nodi ei barodrydd i gydweithio gyda'r gwasanaethau brys. Nodwyd bod Cwmni Glanhau Proffesiynol yn glanhau'r traeth cyn ac ar ddiwedd yr Wyl, bod cwmni Meddygol Proffesiynol a Chwmni Diogelwch Proffesiynol yno i sicrhau iechyd a diogelwch y cyhoedd.

Adroddodd cynrychiolydd o'r heddlu nad oedd tystiolaeth i wrthwynebu'r cais i symud safle.

Mynegwyd bod 3 cwyn wedi ei dderbyn yn 2011 oherwydd lefelau sŵn. Cyfeiriwyd y cwynion hyn ymlaen i Adran Gwarchod y Cyhoedd; Cafodd yr Wyl ei chanslo yn 2012 oherwydd tywydd drwg; Yn 2013 derbyniwyd un cwyn. Nid oes gofyn statudol i'r Wyl gael ei phlisma ond cadarnhawyd parodrydd yr ymgeisydd i gydweithio ac ymgynghori â 'Diogelwch Digwyddiadau'.

Cyfeiriwyd at bryderon yr heddlu lleol mai ychydig o 'draeth' sydd ar y safle a beth oedd ystyriaethau'r ymgeisydd i gyfarch hyn.

Mewn ymateb i'r pryder, cydnabu yr ymgeisydd y bydd llanw uchel ar y penwythnos a bod y digwyddiadau yn debygol o gael eu hail leoli / addasu oherwydd y llanw. Bydd y traeth yn cael ei ddefnyddio am amser cyfyngedig. Ni fydd bar na llwyfan yn cael eu hadeiladu ar y traeth. Bydd rheolaeth effeithiol o'r traeth - yr ymgeisydd eto yn barod iawn i gydweithio a thrafod yr opsiynau i sicrhau'r balans cywir.

Cydnabuwyd bod llythyr wedi ei dderbyn gan Mr Stuart Wyn Jones yn gwrthwynebu y cais.

Adroddodd cynrychiolydd o Adran Gwarchod y Cyhoedd nad oedd gan yr Adran wrthwynebiadau dwys i'r cais o ran rheolaeth sŵn. Yn dilyn ymweliad safle i'r lleoliad newydd, nodwyd bod y safle yn addas ar gyfer yr Wyl o ran sŵn yn benodol gyda byffer digonol rhwng maes yr Wyl a thrigolion cyfagos. Cyfeiriwyd at restr o 11 amod sŵn a oedd wedi eu cyflwyno i'r ymgeisydd. Nid oedd gan yr ymgeisydd unrhyw wrthwynebiad i'r amodau. Trafodwyd y monitro a wnaed i'r lefelau sŵn yn y ddwy wyl flaenorol a'r tebygolrwydd yw y bydd monitro sŵn eto eleni i sicrhau bod yr amodau yn cael eu cyfarch.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y panel, nodwyd nad oedd eiddo o fewn 500 – 600m i'r safle.

Cydnabuwyd bod llythyr wedi ei dderbyn gan Cyngor Cymuned Llanbedrog.

Adroddodd cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Tan nad oeddynt yn gwrthwynebu'r cais, ond bod rhaid i'r Gwasanaeth Tan dderbyn Asesiad Risg o'r sefyllfa.

Mewn ymateb i'r cais, nododd yr ymgeisydd y bydd asesiad risg ar gael i'r Gwasanaeth Tan yn ddibynnol ar benderfyniad yr Is Bwyllgor Trwyddedu.

Gadawodd y partiön perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwydded 2003 sef

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn y dylid caniatáu'r cais, ac ar sail y sylwadau ysgrifenedig a llafar a dderbyniwyd, y cais yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

PENDERFYNWYD

Caniatáu trwydded eiddo yn ddarostyngedig bod yr amodau a argymhellwyd mewn sylwadau gan Adran Iechyd Amgylcheddol y Cyngor yn cael eu hymgorffori fel amodau ar y drwydded. Bydd y drwydded yn cychwyn ar 14 Awst 2014.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol benderfyniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 11:20am

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 14.07.14

Yn bresennol: Cyng. Tudor Owen, Cyng. Huw Edwards, Cyng. Elfed Williams

Hefyd yn bresennol: Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

1. CROESO

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudor Owen. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO BETIO (AR WAHAN I DRACIAU) WILLIAM HILL ORGANIZATION LIMITED, 25 STRYD Y MOCH, PWLLHELI.

Ar ran yr eiddo: Mr Richard Taylor (Cyfreithiwr) ac Mr Andrew Ashton (Rheolwr Ardal)

Ymddiheuriadau: W Bryn Williams, Gwrthwynebydd

Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer 25 Stryd Moch, Pwllheli gan William Hill Organisation Limited, Greenside House, 50 Station Road, Wood Green, Llundain, N22 7TP.

Atgoffwyd pawb o dri amcan trwyddedu Deddf Gamblo 2005 oedd angen eu hystyried sef;

- Atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell o drosedd ac anrhefn; cael ei gysylltu â throedd ac anrhefn; neu gael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgaredd troseddol
- Sicrhau fod hapchwarae yn cael ei gynnal mewn modd teg ac agored
- Gwarchod plant ac unigolion bregus eraill rhag niwed neu gael eu hymelwa drwy hapchwarae

Rhestrwyd hefyd y mesurau a argymhellwyd gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu gan dynnu sylw penodol at bolisi 'Eithrio Gwirfoddol' lle mae'n bosib i gwsmer sydd yn cydnabod posibilrwydd eu bod yn gaeth i gamblo; eithrio eu hunain o weithgareddau betio yn yr eiddo am 12 mis.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd un gwrthwynebiad i'r cais gan un o drigolion lleol Pwllheli. Roedd yr ymatebydd yn Weinidog ac yn datgan ei wrthwynebiad ar ran unigolion yr ofalaeth gan nodi ei fod yn dod ar draws sefyllfaoedd lle mae bywydau teuluoedd ac unigolion bregus wedi cael eu heffeithio oherwydd problemau gamblo.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyflwyniad deiseb, nodwyd Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu) nad oedd deiseb wedi ei chyflwyno gan drigolion lleol.

Cafodd Mr Richard Taylor, cynrychiolydd cwmni William Hill gyfle i ymhelaethu ar y cais.

Rhoddwyd gwybodaeth gefndirol am y cwmni gan dynnu sylw at y safonau disgwylidig sydd ganddynt i sicrhau amcanion trwyddedu. Cyfeiriwyd at raglen hyfforddiant helaeth ar gyfer staff y cwmni, eu hymateb i bolisi 'Think 21' a hefyd eu tystysgrif cyfrifoldebau cymdeithasol.

Diolchwyd am y wybodaeth ddealladwy a gyflwynwyd.

Mewn ymateb i gwestiwn, nododd Mr Richard Taylor, bod William Hill yn cymryd camau perthnasol i warchod y cyhoedd drwy sicrhau bod gweithwyr y siop wedi eu hyfforddi i ymdrin â sefyllfaoedd anodd a all godi. Y duedd yw bod staff yn parhau am gyfnodau hir gyda'r cwmni ac o ganlyniad yn dod i adnabod patrymau gwaith a magu perthynas dda gyda chwsmeriaid a thrigolion lleol. O ran gweithredu polisi 'Eithrio Gwirfoddol', nodwyd, unwaith bydd staff yn adnabod unigolyn sydd â thrafferthion gamblo, bydd yr unigolyn yn cael ei gyfeirio.

Nodwyd y byddai teledu cylch cyfyng yn cael ei osod yn y siop fydd yn gwarchod staff a chwsmeriaid. Bydd y safle yn annhebygol o achosi niwsans cyhoeddus gan fod y siop yn cau am 10:00pm. Ni fydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn y siop ac ni fydd sŵn uchel o'r teledu. (Nid yw niwsans cyhoeddus yn un o amcanion siopau betio).

Cydnabuwyd bod llythyr wedi ei dderbyn gan W Bryn Williams, Gweinidog Gofalaeth Pwllheli.

Mewn ymateb i bryder y gwrthwynebydd, ac o ystyried bod siop betio eisoes yn bodoli ym Mhwillheli, rhaid derbyn yr elfen bod angen i bobl sydd â phroblemau gamblo gydnabod yr angen am gefnogaeth eu hunain.

Bydd sefydlu y busnes ym Mhwillheli yn rhoi dewis i'r cwsmeriaid a chynnig adnoddau gwell.

Cydnabuwyd sylw a dderbyniwyd gan Swyddog Gorfodi Trwyddedu yn nodi nad oedd unrhyw broblemau cydymffurfiaeth yn y siopau William Hill sydd ym Mangor a Chaernarfon. Gyda dros 2,390 o siopau yn y Deyrnas Unedig (sydd yn cynrychioli 26% o'r farchnad) mae'r cwmni yn un mawr ac yn gwneud eu gorau i gadw safon.

Gadawodd y partiön perthnasol y cyfarfod.

Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn y dylid caniatáu'r cais.

PENDERFYNWYD

CANIATÁU Y CAIS AR SAIL Y SYLWADAU YSGRIFENEDIG A LLAFAR A DDERBYNIWYD. Y CAIS YN GYDNAWS Â'R AMCANION TRWYDDEDU.

Yn unol ag adran 164 o'r Ddeddf Gamblo 2005 bydd yr awdurdod lleol yn hysbysu'r ymgeisydd a partiön â diddordeb o'r penderfyniad gan roi manylion hawl apelio. Bydd yr Uned Trwyddedu yn gweithredu ar hyn pryd y cyhoeddi'r drwydded.

Dechreuodd y cyfarfod am 3:30pm a daeth i ben am 4:20pm

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 16.07.14

Yn bresennol: Cyng. Eryl Jones Williams, Cyng. Angela Russell, Cyng. Annwen Hughes

Hefyd yn bresennol: Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

1. CROESO

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO O'R NEWYDD, 111 - 113 STRYD FAWR, PORTHMADOG.

Ar ran yr eiddo: Mr Terry Reid a Miss Leanne Hignett

Aelod Lleol: Cynghorydd Jason Humphreys

Ymddiheuriadau: Dim i'w nodi

Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer 111 - 113 Stryd Fawr, Porthmadog gan Savers Health and Beauty Limited, Hutchinson House, 5 Hester Road, Battersea, Llundain. Nodwyd bod tystiolaeth ddigonol i'r cais gael ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Gofynion y cais oedd i gyflenwi alcohol oddi ar yr eiddo. Rhoddwyd manylion am yr oriau arfaethedig.

Rhestrwyd hefyd y mesurau a argymhellwyd gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cais gan yr Aelod Lleol a Chyngor Tref Porthmadog mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a diogelu plant rhag niwed. Cyfeiriwyd at y ffaith bod Dwyrain Porthmadog gyda'r lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol uchaf yn Nwyfor a Meirionnydd ac y buasai cyflenwi alcohol rhad i'w yfed oddi ar yr eiddo yn cyfrannu at y broblem. Cwestiynwyd hefyd yr angen i gael siop arall yn y dref i werthu alcohol.

Nid oedd gan Heddlu Gogledd Cymru wrthwynebiad i'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau

- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd bod y cwmni wedi dechrau gwerthu alcohol yn eu siopau ers 2010 o ganlyniad i ymchwil trwyadl. Y bwriad oedd gwerthu gwinoedd da, seidr a chwrw. Pwysleisiwyd na fydd alcohol rhad na chaniau cwrw unigol yn cael ei gwerthu yn y siop. Nodwyd bod y cwmni yn ofalus iawn o'r hyn maent yn werthu ac o'r cwsmer maent yn ceisio ei ddenu. Nodwyd bod hyfforddiant allweddol yn cael ei gynnis i staff a bod un aelod o staff ar yr eiddo yn cael ei gydnabod fel 'deilydd personol y drwydded'. Os na fydd deilydd personol y drwydded ar yr eiddo - ni fydd alcohol yn cael ei werthu. Bydd y sefyllfa yn un sydd wedi cael ei rheoli ac mi fydd yr alcohol wedi ei leoli gyferbyn a'r man talu. Ni fydd staff o dan 18 oed gyda'r hawl i werthu alcohol.

Mewn ymateb i gwestiwn, ail bwysleisiwyd nad oedd bwriad gan y cwmni i werthu alcohol rhad er bod enw'r siop yn cyfleu argraff y buasai posib cael alcohol rhad yno.

Mewn ymateb i'r cais nododd yr Aelod Lleol (oedd hefyd yn siarad ar ran Cyngor Tref Porthmadog) bod rhaid amlygu pryderon o ganiatáu safle i werthu alcohol fuasai yn cyfrannu ymhellach at lefelau troseddau uchel sydd yn bodoli ym Mhorthmadog. Amlygwyd siom nad oedd yr heddlu yn gwrthwynebu'r cais o ystyried bod yr ardal yr ail uchaf yng Ngwynedd o ran trosedd ac anrhefn. Nid oes angen mwy o sefydliadau i gyfrannu at y broblem.

Mewn ymateb i'r sylw nododd cynrychiolydd y cwmni bod ymdrech deg yn cael ei wneud i werthu nwyddau i gwsmeriaid ac nid i rai sydd yn goryfed neu yfed ar y stryd – ni fydd gwinoedd o ansawdd yn apelio i'r uchod.

Wrth grynhoi ei gais nododd yr ymgeisydd y buasai yn fodlon cyflwyno system labelu er mwyn adnabod lle gafodd yr alcohol ei brynu. Yn ychwanegol, y cwmni yn fwy na pharod i gydweithio gyda'r heddlu ac ymuno a chyfrannu yn y cynllun Pubwatch Lleol.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwydded 2003 sef

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn bod y cais yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

PENDERFYNWYD

CANIATÁU Y CAIS AR SAIL Y SYLWADAU YSGRIFENEDIG A LLAFAR A DDERBYNIWYD YN DDAROSTYNGEDIG I'R AMODAU CANLYNOL (FEL A WIRFODDOLWYD GAN YR YMGEISYDD) GAEL EU HYMGORFFORI I'R DRWYDDED:

- 1. Bydd y fangre yn rhoi labelu unigryw ar gynnyrch alcohol;**
- 2. Bydd y fangre yn ymuno a chyfranogi i'r cynllun pubwatch lleol.**

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21

diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO O'R NEWYDD, PEG AND MALLET, LLWYN FFYNNON, Y FFOR, PWLLHELI

Ar ran yr eiddo: Mr Chris Newsham, Ms Tocsin Fragua-Newsham, Mr Richard Williams (Cyfreithiwr)

Aelod Lleol: Cynghorydd Peter Reid

Eraill a fynychwyd: Mrs Joan Olsen (Preswylydd Cyfagos) , Mr T Alun Williams (Cadeirydd Cyngor Cymuned Llannor), Mr Richard M Williams (Cynghorydd Cyngor Cymuned Llannor), Mr E Troop (Preswylydd Cyfagos), Aelodau Cymdeithas Llannor.

Ymddiheuriadau: Dim i'w nodi

Atgoffwyd pawb o'r drefn gwrandawriad ac o bedwar egwyddor y Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen eu hystyried wrth wneud penderfyniad.

Gofynnodd yr Aelod Lleol am ganiatâd i gyflwyno sylwadau gerbron yr Is-bwyllgor. Cyfeiriwyd yr Is-bwyllgor gan Gyfreithiwr y Cyngor i Reoliadau 17 ac 18 o'r Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005. Nododd pawb o'r partïon yn bresennol eu bod yn cydsynio i'r cais ac felly rhoddwyd caniatâd i'r Aelod Lleol gyflwyno sylwadau yn ystod y gwrandawriad.

Cyfeiriwyd yr Is-bwyllgor gan Gyfreithiwr y Cyngor i Reoliad 24 o'r Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005. Penderfynodd yr Is-bwyllgor osod uchafswm o 10 munud fesul parti ar gyfer cyflwyno sylwadau.

Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer Peg and Mallet, Llwyn Ffynnon, Y Ffor, Pwllheli. Nodwyd bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Gofynion y cais oedd i gyflenwi alcohol, cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi ei recordio. Rhoddwyd manylion yr oriau arfaethedig.

Rhestrwyd hefyd y mesurau a argymhellwyd gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cais gan 123 o drigolion cyfagos a Chyngor Cymuned Llannor yn datgan pryder fod y cais yn gofyn am yr hawl i chwarae cerddoriaeth tu mewn a thu allan i'r eiddo fydd o ganlyniad yn creu niwsans cyhoeddus. Yn ychwanegol, amlygwyd pryder y bydd caniatáu'r drwydded yn achosi mwy o broblemau mewn perthynas â llygredd sŵn ac agweddau diogelwch y cyhoedd (y safle ar ochr prif ffordd heb balmant).

Nid oedd gan yr Heddlu dystiolaeth i wrthwynebu'r cais ond nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cadarnhau bod y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig yn gyfyngedig i ddefnyddwyr y safle carafanau yn unig.

Cydnabuwyd sylwadau a waned gan y Gwasanaeth Tan lle nodwyd ffigyrau niferoedd sydd yn addas ar gyfer yr eiddo.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Wrth ymhelaethu ar y cais nododd Mr Richard Williams, cynrychiolydd yr ymgeisydd bod yr ymgeisydd yn reolwr profiadol. Gwnaed sylw nad oedd gwrthwynebiad gan yr heddlu na'r Gwasanaeth Tan i'r cais. Nid oedd cwynion wedi eu cyfeirio at Reolwr y safle nac Adran yr Amgylchedd parthed lefelau sŵn. Nid oedd tystiolaeth i awgrymu bod yr egwyddorion trwyddedu yn cael eu torri ac o ran diogelwch y cyhoedd, cadarnhawyd bod y gweithgareddau trwyddedig ar gyfer defnyddwyr y safle yn unig.

O ran ymateb i gwestiwn gan y panel, mynegodd Mr Williams bod y maes carafanau yn un cyfeillgar a'r rheolwr yn adnabod a / neu groesawu pawb i'r safle. O ganlyniad, ni welwyd problem rheoli mai defnyddwyr y safle yn unig fuasai yn defnyddio'r bar.

